



Helpu Cymru i leihau  
ei Hôl Troed Carbon

Help Wales reduce  
its Carbon Footprint



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010





ISBN 978 0 7504 5639 5

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2010

WAG10-03279

F1641011

## Rhagair gan y Gweinidog

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Tlodi Tanwydd newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad am eu cyfraniad gwerthfawr i'r broses o ddatblygu'r Strategaeth hon.

Mae'r Strategaeth hon yn dangos pwysigrwydd Datblygu Cynaliadwy yng ngwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dim ond drwy ddwyn ynghyd amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y gallwn wella lles deiliaid tai a chymunedau yng Nghymru.

Mae cyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd wrth wraidd y rhaglenni sy'n cyflawni'r Strategaeth hon. Fel y mae cam cyntaf **arbed** eisoes wedi dangos, mae cysoni'r nodau hyn yn ein galluogi i sicrhau buddiannau gwell ac yn galluogi mwy o bartneriaid i gydweithio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Bydd y Cynllun Tlodi Tanwydd newydd, a fydd yn disodli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, yn dilyn esiampl **arbed** ac yn canolbwyntio ar sicrhau buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Mae cydweithrediad partneriaid yn rhan annatod o'r ddwy raglen a'r Strategaeth gyfan, boed hynny ar ffurf darparwyr tai cymdeithasol a busnesau lleol sy'n rhan o **arbed**, staff rheng flaen a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn Cynllun Tlodi Tanwydd newydd, neu asiantaethau cynghori amrywiol drwy'r broses o ddatblygu rhwydwaith atgyfeirio cadarn.

Drwy gyhoeddi'r Strategaeth hon a gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd, gobeithiaf weld pwyslais o'r newydd ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Bydd cyngor arbenigol a her adeiladol y Grŵp Cynghori yn hanfodol i wneud cynnydd a rhaid iddo hefyd alluogi gwaith partneriaeth effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Dim ond drwy gydweithio y gallwn gyflawni'r Strategaeth hon yn llwyddiannus a gwneud cynnydd tuag at fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

**Jane Davidson AC**  
**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**



# Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
1.1	Ein Polisi	1
1.2	Ein dull o weithredu	2
1.3	Yr Agenda Polisi Ehangach	2
<b>2.</b>	<b>Nodi'r Cefndir</b>	<b>7</b>
2.1	Beth yw Tlodi Tanwydd?	7
2.2	Targedau statudol i Ddileu Tlodi Tanwydd	7
2.3	Effeithiau Tlodi Tanwydd a Byw mewn Cartref Oer	7
2.4	Graddau Tlodi Tanwydd yng Nghymru	8
<b>3.</b>	<b>Camau i Fynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd</b>	<b>11</b>
3.1	Creu Rhwydwaith Atgyfeirio	12
3.2	Cydweithrediad Rhanddeiliaid	13
3.3	Sicrhau'r Incwm Mwyaf Posibl	15
3.4	Helpu Pobl i Dalu Llai am Ynni	18
3.5	Gwella Perfformiad Ynni Cartrefi	21
<b>4.</b>	<b>Monitro a Gwerthuso</b>	<b>27</b>



# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Ein Polisi

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i leihau nifer y cartrefi sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru ar hyn o bryd, a chymryd camau a fydd yn helpu i gyflawni'r targed, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, na fydd unrhyw gartref yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd erbyn 2018. Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol i gyrraedd y targed hwn.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'r rhaglenni a amlinellir yn y strategaeth hon i gyflawni tri amcan allweddol:

**Cymdeithasol** – lleihau effaith tlodi tanwydd ar ddeiliaid tai yng Nghymru a chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dileu tlodi tanwydd.

**Economaidd** - creu swyddi a chyfleoedd busnes gwyrdd i bobl yng Nghymru.

**Amgylcheddol** - lleihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector domestig, gan gyfrannu at darged Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% y flwyddyn mewn meysydd lle mae pwerau wedi'u datganoli.

Cadarnhaodd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly byddwn yn gwneud penderfyniadau sy'n:

- Hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru mewn ffyrdd sy'n lleihau'r defnydd a wnawn o adnoddau'r ddaear ac yn ein gwneud yn genedl decach a mwy cyfiawn.
- Cyfuno'r materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol perthnasol er mwyn hyrwyddo lles hirdymor yn gyffredinol.
- Cynnwys y gymuned a'r bobl yr effeithir arnynt.

Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn flaenoriaeth allweddol o ran datblygu cynaliadwy oherwydd mae'n canolbwyntio ar fater cymdeithasol allweddol drwy dargedu'r rheini sydd â'r angen mwyaf; yn ysgogi gweithgarwch economaidd drwy gynnig cyfleoedd i fusnesau lleol yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant; ac yn gwneud cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni ac yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn cyfrannu at y gwaith o leihau ôl-troed ecolegol Cymru.

Mae tai yn cyfrif am 25 y cant o ôl-troed ecolegol Cymru ac mae'r Strategaeth hon yn gyson â'n huchelgais, a nodir yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, o ddod yn genedl un blaned o fewn oes cenhedlaeth. Mae hefyd yn anelu at wella lles pobl yng Nghymru yr effeithir arnynt gan dlodi tanwydd neu sy'n agored iddo.

## 1.2 Ein dull o weithredu

Drwy geisio lleihau nifer y cartrefi yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau yn unol â'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Pan fydd gennym bwerau i gymryd camau a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at leddfu tlodi tanwydd, byddwn yn sicrhau bod y cymorth a'r arian a roddwn yn cael eu targedu at y rhai mwyaf anghenus.
- Lle y bydd gan eraill y pwerau i weithredu, byddwn yn sicrhau ein bod yn rhagweithiol o ran dylanwadu ar benderfyniadau.
- Bydd ein rhaglenni sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn sicrhau gwelliant hirdymor i ansawdd y stoc dai, yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac yn lleihau ein hól-troed carbon.
- Hefyd, caiff ein rhaglenni perfformiad ynni eu cynllunio i sicrhau buddiannau economaidd i Gymru o ran cyfleoedd cyflogaeth a busnes.
- Bydd ein rhaglenni yn ategu rhaglenni a ariennir gan ffynonellau eraill, megis rhwymedigaethau cyflenwyr ynni, yn hytrach na chystadlu â hwy.
- Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth a'r cyllid sydd ar gael i ddeiliaid tai yng Nghymru.
- Caiff ansawdd ac amseroldeb data ar dlodi tanwydd eu gwella ac adolygir polisiâu a chmau gweithredu yng ngoleuni data newydd.
- Ystyrir camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng nghyd-destun ein hagenda polisi cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.

## 1.3 Yr Agenda Polisi Ehangach

### 1.3.1 Undeb Ewropeaidd

Noda **'Europe 2020: a strategy for smart, sustainable and inclusive growth'** weledigaeth ar gyfer economi marchnad gymdeithasol Ewrop dros y degawd nesaf. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno tri maes â blaenoriaeth: Twf doeth (datblygu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth ac arloesi); Twf cynaliadwy (hyrwyddo economi gwyrddach, mwy cystadleuol ac sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon), a Thwf cynhwysol (meithrin economi â chyfradd gyflogaeth uchel gan sicrhau cydlyniant cymdeithasol a thiriogaethol).

Mae'r **Gyfarwyddeb Drydan** yn cydnabod tlodi tanwydd fel problem gynyddol yn y Gymuned Ewropeaidd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau wneud y canlynol:

- Diffinio cwsmeriaid sy'n agored i niwed (gall hyn gyfeirio at dlodi tanwydd).
- Rhoi mesurau priodol ar waith megis cynlluniau gweithredu ynni cenedlaethol, darparu budd-daliadau fel rhan o systemau nawdd cymdeithasol, neu gefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni, er mwyn mynd i'r afael ag achosion o dlodi tanwydd a nodir.



Cynlluniwyd y **Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau** i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau faint o garbon deuocsid a ryddheir o adeiladau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau bennu safonau gofynnol o ran perfformiad ynni adeiladau newydd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes, sicrhau y caiff eu perfformiad ynni ei ardystio, a'i gwneud yn ofynnol i foeleri a systemau aerdymheru mewn adeiladau gael eu harchwilio'n rheolaidd.

Cynlluniwyd y **Gyfarwyddeb Gwasanaethau Ynni** i wella effeithlonrwydd y defnydd terfynol a wneir o ynni ledled yr UE. Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod rhwymedigaethau amrywiol ar Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y gofynion canlynol:

- Bod cwmnïau ynni penodol yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni i'w cwsmeriaid.
- Bod cwsmeriaid terfynol yn cael mesuryddion ynni cyn belled ag y bo hyn yn dechnegol bosibl, yn rhesymol yn ariannol ac yn gymesur ag arbedion ynni posibl a gofynion eraill o ran bilio.

Ymestynnwyd cwmpas **Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)** er mwyn cefnogi ymyriadau effeithlonrwydd ynni mewn tai ledled Ewrop. Gall hyd at €8 biliwn neu 4% o gyfanswm dyraniad ERDF i Aelod-wladwriaethau'r UE gael ei neilltuo i gydariannu gwaith inswleiddio, gosod paneli solar a gosod boeleri newydd yn lle rhai nad ydynt yn cyrraedd safon benodedig yn y stoc dai bresennol.

### 1.3.2 Llywodraeth y DU

Mae **Deddf Ynni 2010** yn galluogi Llywodraeth y DU i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni roi cymorth gyda biliau ynni i gartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd a rhai incwm isel sy'n agored i niwed ac mae'n egluro rôl Ofgem fel rheoleiddiwr o ran diogelu buddiannau defnyddwyr presennol a defnyddwyr yn y dyfodol.

Caiff **Mesur Ynni arfaethedig 2010** ei gyflwyno i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi a busnesau, hyrwyddo dulliau cynhyrchu ynni carbon isel, a diogelu cyflenwadau ynni. Bydd y Mesur hwn yn cyflawni rhaglen genedlaethol o fesurau ynni effeithlon ar gyfer cartrefi a busnesau. Un o elfennau allweddol y mesur fydd gweithredu **Bargen Werdd** i gyflawni effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi a busnesau - gan gyflwyno fframwaith yn cynnwys cymhelliannau posibl i gyflenwyr ynni a chartrefi a fydd yn trawsnewid y modd y sicrhau effeithlonrwydd ynni yn y DU drwy alluogi pobl i dalu wrth arbed.

### 1.3.3 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae tlodi tanwydd a'i effaith yn dylanwadu ar lawer o feysydd polisi gwahanol Llywodraeth Cynulliad Cymru; nodir y meysydd polisi allweddol a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth hon yn Adran 3 (Camau i Fynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd). Mae'r polisiau hyn yn cynnwys:

**Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru** – gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o Gymru Gynaliadwy, lle rydym yn defnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear ac yn dod yn gymdeithas decach a mwy cyfiawn.

Mae'r **Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd** yn nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at ein hymrwymiad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr dri y cant y flwyddyn erbyn 2011, ac yn cyfrannu at gyflawni cyllidebau carbon statudol y DU.

Mae **Chwyldro Carbon Isel** yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ynni carbon isel yng Nghymru.

Mae'r **Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni**, a gyhoeddir yr haf hwn, yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd ac yn gweithio gyda phartneriaid yn eu cylch er mwyn gwella perfformiad ynni cartrefi, cymunedau, busnesau a'r sector cyhoeddus. Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a all gael effaith yn y dyfodol agos.

Mae **strategaeth cynhwysiant ariannol** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mae Pawb yn Cyfrif, yn ceisio hwyluso ymateb cyd-asiantaethol cyfannol a chydgyssylltiedig i faterion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol.

Mae'r **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru** yn nodi fframwaith cynhwysfawr ar gyfer y 10 mlynedd nesaf i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu polisiau a chynlluniau sy'n diwallu anghenion pobl hŷn.

Roedd y **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer cyfrannu at y gwaith o ddileu tlodi plant yng Nghymru. Mae **Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r Cynllun Cyflenwi** (sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd) yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru, ynghyd â gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw blentyn neu berson ifanc dan anfantais oherwydd tlodi erbyn 2020. Mae'r Cynllun Cyflenwi yn nodi'r ymrwymadau polisi a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

**Ein Dyfodol Iach**, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009, yw fframwaith strategol cyntaf Cymru ar gyfer iechyd y cyhoedd. Mae'n adnewyddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella ansawdd a hyd oes a sicrhau canlyniadau iechyd tecach. Mae lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd yn un o ddeg o ganlyniadau â blaenoriaeth a nodir yn y fframwaith.

Mae **Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn** yn rhan o raglen hybu iechyd ehangach, Heneiddio'n Dda, sy'n cael ei datblygu a'i chydgyssylltu gan Age Cymru mewn cydweithrediad â phartneriaethau cymunedol lleol.

Mae **Gwella Bywydau a Chymunedau**, sef Strategaeth Dai newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn nodi dull gweithredu a fydd yn gwella cartrefi a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a chartrefi sy'n bodoli eisoes.

**Cymunedau yn Gyntaf** yw rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael a thlodi ag amddifadedd yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae yna Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio a gwaredwyr gwasanaethau yn cefnogi blaenoriaethau cymunedau ar sawl thema.

Mae **Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd** yn sefydlu dull newydd o ymdrin â datblygiad economaidd yng Nghymru sy'n: gallu diwallu anghenion busnesau yn well; annog economi gryfach a mwy cynaliadwy; ac sy'n cynnwys ffyniant a lles hirdymor pobl yng Nghymru.

Mae **Gwireddu'r Potensial** yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog swyddi gwyrdd newydd ac yn cryfhau'r sector ynni carbon isel yng Nghymru.

Mae **Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru** yn manylu ar ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni uchelgais Cymru'n Un o weithlu deallus a medrus a chyfradd gyflogaeth uchel yng Nghymru. Ceir ffocws penodol ar gamau i godi lefelau gweithgarwch economaidd yng Nghymru gan gynnwys integreiddio gwasanaethau yn well a gwell partneriaethau lleol. Mae **Er Mwyn Ein Dyfodol**, strategaeth addysg uwch newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol o ran arian cyfatebol ar gyfer ymchwil, sy'n cynnwys economi carbon isel, ac, yn benodol, technolegau adeiladu cynaliadwy.



## 2. Nodi'r Cefndir

### 2.1 Beth yw Tlodi Tanwydd?

Diffinnir tlodi tanwydd fel gorfod gwario mwy na 10 y cant o incwm (gan gynnwys budd-dal tai) ar danwydd i'r cartref cyfan er mwyn cynnal system wresogi foddhaol. Os yw cartrefi'n gwario mwy nag 20 y cant o'u hincwm ar danwydd, diffinnir eu bod yn wynebu tlodi tanwydd difrifol.

Y diffiniad o 'system wresogi foddhaol' a argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd yw 23°C yn yr ystafell fyw a 18°C ym mhob ystafell arall, am gyfnod o 16 awr o bob 24, ar gyfer cartrefi â phobl hŷn neu bobl ag anableddau neu salwch cronig, ac 21°C yn yr ystafell fyw a 18°C ym mhob ystafell arall, am gyfnod o naw awr o bob 24 (neu 16 o bob 24 dros y penwythnos), ar gyfer cartrefi eraill.

Mae'r targedau statudol ar gyfer dileu tlodi tanwydd yng Nghymru yn seiliedig ar y diffiniad o dlodi tanwydd a nodir uchod a byddwn yn parhau i fesur ein cynnydd o ran cyflawni'r targedau yn erbyn y diffiniad hwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen i ni ganolbwyntio arian a chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gartrefi sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi tanwydd difrifol.

### 2.2 Targedau Statudol i Ddileu Tlodi Tanwydd

Cyhoeddwyd targedau statudol ar gyfer dileu tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2003 yn **Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru** Llywodraeth Cynulliad Cymru<sup>1</sup>. Mae'r Strategaeth hon yn disodli'r Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru fel Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r targedau a nodwyd yn yr Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru yn parhau sef, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dileu tlodi tanwydd:

- Ymhlith cartrefi sy'n agored i niwed erbyn 2010.
- Mewn tai cymdeithasol erbyn 2012.
- Erbyn 2018, na fyddai neb yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd.

Yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg Byw yng Nghymru 2008, byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn. Defnyddir y canlyniadau hyn hefyd i asesu graddau'r her a wynebir, beth y bydd angen ei wneud er mwyn cyrraedd y targedau hyn ac i amlinellu cyfraniad camau a nodwyd yn y Strategaeth hon.

### 2.3 Effeithiau Tlodi Tanwydd a Byw mewn Cartref Oer

Mae tlodi tanwydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles cymdeithasol ac economaidd deiliaid tai. Mae hefyd yn cael effaith ar adnoddau gwasanaethau'r sector cyhoeddus, megis y GIG, oherwydd mae'n golygu bod angen i ddeiliaid tai ddefnyddio gwasanaethau'n amlach neu fod angen mwy o gymorth arnynt. Drwy leihau'r risg bod deiliaid tai yn byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru, gallwn helpu i

---

<sup>1</sup> Yn ôl gofynion Deddf Cartrefi ac Arbed Ynni 2000.

leihau'r effaith negyddol ar fywydau pobl a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Cynhaliwyd nifer o brosiectau ymchwil i effaith tlodi tanwydd ar iechyd a lles. Nodir canfyddiadau'r prosiectau hyn yn Atodiad 2.

Drwy fynd i'r afael â thlodi tanwydd, byddwn yn cyfrannu at y gwaith o ymdrin â'r effeithiau negyddol canlynol:

### ***lechyd***

- Mwy o achosion o afiechyd anadlol, gan gynnwys asthma.
- Pwysedd gwaed uwch a mwy o risg o drawiad ar y galon neu strôc (clefyd cardiofasgwlaidd).
- Mwy o achosion o lithro, baglu a syrthio ymysg pobl hŷn oherwydd gall oerni leihau symudedd a gwaethygu symptomau arthrits.
- Straen a phroblemau iechyd meddwl yn sgil pryderon ynghylch biliau ynni a/neu ddyled.
- Mwy o bwysau a chost ar wasanaethau iechyd a gofal.
- Mae tlodi tanwydd yn cyfrannu at ormod o farwolaethau yn ystod y gaeaf.

### ***Addysg***

- Mae tlodi tanwydd yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol lle na ellir gwresogi mwy nag un ystafell yn briodol, gan arwain at ddiffyg lle tawel a chynnes i astudio neu lefelau cynyddol o absenoldeb oherwydd salwch.

### ***Allgáu Cymdeithasol***

- Gall Tlodi Tanwydd achosi lefelau cynyddol o allgáu cymdeithasol oherwydd amharodrwydd i wahodd ffrindiau i gartref oer a llaith.
- Mae biliau tanwydd uchel yn golygu bod gan ddeiliaid tai lai o arian i dalu am fwyd, costau beunyddiol eraill a gweithgareddau cymdeithasol.

### ***Yr Economi***

- Mae tlodi tanwydd yn cael effaith andwyol ar yr economi yn sgîl lefelau cynyddol o salwch.
- Gall mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau faint o arian a gaiff ei wario ar filiau ynni gael effaith gadarnhaol ar adfywio lleol oherwydd bydd gan bobl fwy o arian i'w wario yn yr economi leol.

## **2.4 Graddau Tlodi Tanwydd yng Nghymru**

Dengys y data diweddaraf fod tua 240,000 o gartrefi yn wynebu tlodi tanwydd<sup>2</sup>. Mae'r nifer wedi bod yn cynyddu ers 2004 a gellir gweld ei bod yn dilyn cynnydd mewn

---

<sup>2</sup> Mae hyn yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg Byw yng Nghymru 2004 a fodelwyd hyd at 2006.

prisiau tanwydd. Rhagamcenir y bydd prisiau ynni yn parhau i gynyddu, felly disgwylir y bydd data a gaiff ei ddiweddarau yn dangos y cynnydd mewn tloedi tanwydd yng Nghymru a'r her bwysig o weithio tuag at ein targedau statudol.

Ceir dadansoddiad manylach o ddata tloedi tanwydd yn Atodiad 1. Byddwn yn diweddarau'r atodiad hwn yn barhaus ac yn darparu dadansoddiad newydd unwaith y bydd canlyniadau arolwg Byw yng Nghymru 2008 a'r gwaith modelu cysylltiedig yn hysbys. Byddwn hefyd yn datblygu, ar y cyd â phartneriaid, Gynllun Monitro a Gwerthuso i'w gyhoeddi erbyn diwedd 2010. Ceir rhagor o fanylion am yr hyn y bydd y Cynllun yn ei gynnwys yn Adran 4.





### 3. Camau i Fynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd

Mae'r tri ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar p'un a fydd cartref mewn tlodi tanwydd, a difrifoldeb y tlodi hwnnw, fel a ganlyn: lefelau incwm, prisiau tanwydd ac effeithlonrwydd ynni'r cartref. Mae'r adran hon yn nodi'r dulliau sydd ar gael i fynd i'r afael â phob ffactor allweddol a'r camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid.

Bydd **nodweddion allweddol** camau Llywodraeth y Cynulliad fel a ganlyn:

- Hyrwyddo'r broses o gydgyssylltu cymorth, nid yn unig o ran y darparwyr gwahanol sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ond hefyd drwy ddod o hyd i ffyrdd o alluogi gwasanaethau a rhaglenni eraill i ategu camau a fydd yn cynorthwyo i leddfu tlodi tanwydd.
- Sicrhau y caiff y gwaith o ddatblygu mentrau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ei gydgyssylltu â chamau i fynd i'r afael â thlodi ar draws Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Sicrhau y caiff unrhyw wasanaethau newydd eu datblygu mewn partneriaeth â gwasanaethau sy'n bodoli eisoes a ddarperir gan asiantaethau lleol, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector dibynadwy, a'u bod yn ategu'r gwasanaethau hynny.
- Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth o safon ac wedi'u cydgysylltu'n dda i sicrhau y gall pob deiliad tŷ yng Nghymru gael gafael ar help i leihau ei filiau tanwydd, gwneud y mwyaf o'i incwm, gwella perfformiad ynni ei gartref a lleihau ei risg o wynebu tlodi tanwydd.
- Darparu rhaglen tlodi tanwydd sy'n seiliedig ar alw ar gyfer Cymru gyfan, wedi'i hategu gan raglenni tlodi tanwydd ar gyfer ardaloedd penodol.
- Sicrhau bod y cymorth a'r cyngor a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gynhwysol ac yn ystyried anghenion pobl (er enghraifft, sicrhau bod cyngor yn cyrraedd safonau hygyrchedd ac y caiff rhaglenni eu darparu mewn modd sy'n ystyried diwylliannau gwahanol).
- Sicrhau y caiff mesurau effeithlonrwydd ynni a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a ddarperir drwy raglenni sy'n seiliedig ar alw ac ardal eu targedu at y deiliaid tai sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni.
- Adolygu'r meini prawf cymhwyso pan fydd data newydd ar ddifrifoldeb a dosbarthiad tlodi tanwydd yng Nghymru ar gael a gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod rhaglenni yn parhau i nodi a thargedu cymorth ar gyfer deiliaid sydd â'r angen mwyaf.
- Sicrhau y caiff rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru eu datblygu mewn modd sy'n gwneud y mwyaf o'r arian sydd ar gael gan Lywodraeth y DU, rhaglenni cyflenwyr ynni a ffynonellau posibl eraill o arian.

### 3.1 Creu Rhwydwaith Atgyfeirio

Mae'r cyngor sydd ar gael i bobl yn allweddol i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae angen i'r cyngor a gynigir fod yn hawdd cael gafael arno er mwyn i ddeiliaid tai allu manteisio i'r eithaf ar yr help sydd ar gael i leihau eu biliau ynni a gwneud y mwyaf o'u hincwm. Mae cyngor eisoes ar gael yn eang gan nifer o ffynonellau. Fodd bynnag, mae angen i'r cyngor hwn gael ei gydgysylltu'n well, dylai fod yn haws cael gafael arno a dylai gael ei ddarparu mewn fformat sy'n addas ar gyfer y rheini y mae angen cyngor arnynt.

Byddwn yn sefydlu **rhwydwaith atgyfeirio dwyffordd** sy'n canolbwyntio ar Gynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan, a fydd yn disodli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES). Bydd y rhwydwaith atgyfeirio yn sicrhau, waeth pa sefydliad neu wasanaeth bynnag y bydd deiliad tŷ yn ei ddefnyddio gyntaf, y gall gael ei atgyfeirio at yr ystod lawn o wasanaethau cyngor a chymorth sydd eu hangen ar y deiliad tŷ i ddiwallu ei anghenion penodol.

Cydnabyddwn rôl bwysig **gwasanaethau rheng flaen** sy'n bodoli eisoes o ran darparu ffynhonnell ddibynadwy o gyngor ar gyfer deiliaid tai a byddwn yn sicrhau bod y **pwynt cydgysylltu canolog** ar gyfer y Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau hyn. Bydd sicrhau bod gan wasanaethau sy'n bodoli eisoes y wybodaeth sydd eu hangen arnynt i atgyfeirio pobl yn allweddol i sefydlu rhwydwaith llwyddiannus. Bydd y Grŵp Gweithredol Tlodi Tanwydd (gweler 3.2) yn gyfrifol am hyn. Byddwn yn sicrhau drwy'r broses gaffael bod y pwynt cydgysylltu canolog yn darparu gwasanaethau'n ddwyieithog ac yn darparu cyngor a chymorth sy'n diwallu anghenion penodol grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau sy'n agored i niwed.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried yr opsiynau ar gyfer cynnig cymorth i **ddeiliaid tai mewn argyfwng**. Byddwn yn sicrhau bod protocolau a gweithdrefnau ar waith yn y pwynt cydgysylltu canolog i atgyfeirio cartrefi mewn argyfwng at y gwasanaeth mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion. Gall hyn olygu eu hatgyfeirio at Linell Gymorth Home Heat neu gyflenwyr ynni unigol am gymorth drwy eu cronfeydd ymddiriedolaeth, y Gronfa Gymdeithasol, Undebau Credyd, neu wasanaethau cymorth eraill. Fel rhan o'r Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan byddwn hefyd yn sicrhau y caiff cartrefi cymwys mewn argyfwng flaenoriaeth.

Yn dibynnu ar ganlyniad y broses gaffael, gallai'r pwynt cydgysylltu canolog fod yn bwynt cyswllt i gwsmeriaid newydd ar gyfer y Cynllun Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru gyfan neu gellid ymestyn gwasanaethau a gynigir gan ddarparwr/ddarparwyr cyngor sy'n bodoli eisoes.

Bydd y rhwydwaith atgyfeirio yn cynnwys, ymhlith eraill:

- Darparwyr cyngor ar arbed ynni.
- Asiantaethau cymorth lleol.
- Awdurdodau Lleol.
- Sefydliadau trydydd sector cenedlaethol a lleol.

- Sefydliadau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cwmnïau ynni.
- Rheolwyr cynlluniau tlodi tanwydd a/neu effeithlonrwydd ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda phob rhan o Lywodraeth y Cynulliad, rhanddeiliaid allanol ac asiantau rheoli'r rhaglen newydd ar gyfer Cymru gyfan i ddatblygu'r rhwydwaith atgyfeirio a rhoi protocolau a gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer atgyfeirio deiliaid tai rhwng sefydliadau gwahanol.

Drwy ein **Cyfarwyddiaeth Gyffredinol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** a chyda rhanddeiliaid, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff gwasanaethau, lle mae darparwyr yn ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain (nyrsys ardal/gwasanaethau cymorth gofal cartref/gwasanaethau ambiwlans a chludo cleifion/meddygon teulu/bydwagedd/nyrsys seiciatrïg cymunedol/gweithwyr cymdeithasol), eu hannog i atgyfeirio deiliaid tai sy'n agored i niwed at y pwynt cydgysylltu canolog am gyngor a chymorth.
- Cynnwys yr angen i nodi deiliaid tai sy'n wynebu risg o fyw mewn cartrefi oer neu laith wrth gomisiynu canllawiau ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Sicrhau bod y **Cynllun Gweithredu Strategol Lleihau Annhegwch ym Maes Iechyd**<sup>3</sup> yn nodi'r cyswllt rhwng tlodi tanwydd ac anghydraddoldebau iechyd a'r manteision economaidd-gymdeithasol y gellir eu cael drwy fuddsoddi mewn camau i leihau tlodi tanwydd.

Byddwn yn gweithio ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau y caiff y pwynt cydgysylltu canolog ar gyfer atgyfeiriadau ei gysylltu â threfniadau newydd ar gyfer cymorth integredig i'r teulu yn lleol, fel y cynigir yn **Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r Cynllun Cyflenwi**.

Mae **Grŵp Tlodi Trawsadrannol** Llywodraeth y Cynulliad ar waith ac mae tlodi tanwydd yn rhan o'i gylch gwaith. Bydd hyn yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio ar draws adrannau er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae camau a gymerir gan bob rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cynnwys yn yr Adran hon, gan nodi'r ystod eang o weithgareddau sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

### 3.2 Cydweithrediad Rhanddeiliaid

Er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd, mae angen i ystod eang o bartneriaid gymryd camau effeithiol, gan gynnwys Llywodraeth y DU, llywodraeth leol, Ofgem, y cyflenwyr a'r cynhyrchwyr ynni, y trydydd sector, Cymdeithasau Tai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, landlordiaid preifat, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth,

<sup>3</sup> Mae'r gwaith o ddatblygu *Cynllun Gweithredu Strategol Lleihau Annhegwch ym Maes Iechyd* yn deillio o *Ein Dyfodol Iach*, y fframwaith strategol ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, sefydliadau'r sector preifat, Gwasanaethau'r Heddlu, Tân ac Achub, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a deiliaid tai eu hunain. Bydd cydweithrediad rhanddeiliaid yn ganolog i lwyddiant ein camau gweithredu.

Mae **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd** (Grŵp Cynghori Cymru ar Dlodi Tanwydd yn flaenorol) yn cynnwys cynrychiolwyr uwch rhanddeiliaid o asiantaethau statudol, llywodraeth leol, sefydliadau yn y sector cymunedol a'r sector preifat ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Caiff agenda, papurau a chofnodion y Grŵp eu cyhoeddi a byddant ar gael ar ein gwefan. Mae swyddogaethau allweddol y grŵp fel a ganlyn:

- Rhoi cyngor ac argymhellion uniongyrchol i Lywodraeth y Cynulliad ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.
- Ystyried effeithiolrwydd polisïau presennol Llywodraeth y Cynulliad o ran lleihau tloidi tanwydd.
- Ystyried rhwystrau i leihau tloidi tanwydd.
- Ystyried yr angen am bolisïau a mentrau ychwanegol er mwyn cyrraedd targedau Llywodraeth y Cynulliad.
- Rhoi cyngor ar ymgysylltu ag unigolion allweddol sy'n ymwneud â'r broses o fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Caiff y **Grŵp Gweithredol Tloidi Tanwydd** (Grŵp Cynghori'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn flaenorol) ei ddatblygu i roi cyngor a chanllawiau i Lywodraeth y Cynulliad ar reoli a gweithredu ein rhaglenni effeithlonrwydd ynni tloidi tanwydd yn effeithiol. Bydd y Grŵp hefyd yn gyfrifol am sicrhau y caiff gwybodaeth ac arfer da eu rhannu ar draws gwasanaethau rheng flaen. Bydd y Grŵp hefyd yn ystyried sut y gall gyfrannu at ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu **National Energy Action Cymru (NEA)** i: gefnogi camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd; darparu hyfforddiant; cyfrannu at y sail dystiolaeth ar dlodi tanwydd yng Nghymru; ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn arbennig yn lleol, i sicrhau y caiff eu barn ei bwydo'n ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi Gwobrau Feel the Heat NEA fel modd o nodi camau arloesol yn y gymuned sydd â'r nod o fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Wedi ei sefydlu'n annibynnol, mae'r Cynghrair Tloidi Tanwydd yn ymgyrchu dros ddileu tloidi tanwydd ac yn cydweithio â'r Llywodraeth Cynulliad i weithredu ar yr agenda tloidi tanwydd yng Nghymru. Mae'r Gynghrair yn cynnwys nifer o sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â'r agenda tloidi tanwydd ac fe'i harweinir gan Lais Defnyddwyr Cymru a NEA Cymru.

Mae gan **Awdurdodau Lleol** a **darparwyr tai cymdeithasol** rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae eu staff rheng flaen lleol mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi pobl sydd mewn tloidi tanwydd a'u hatgyfeirio at y rhaglenni cymorth amrywiol. Bydd yn hanfodol i Awdurdodau Lleol ddeall sut y

gallant weithio gyda'r pwynt cydgysylltu canolog. Maent hefyd yn bartneriaid cyflawni allweddol ar gyfer y Rhaglen **arbed**. Mae cynnwys Cymdeithasau Tai yn **arbed** hefyd yn enghraifft o'r modd y gellir cynnwys **mentrau cymdeithasol** yn y gwaith o fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Nid ydym yn bwriadu cymryd camau i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ond byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon. Rydym wedi cytuno i ariannu NEA Cymru i gynnal prosiect yn 2010-11 i rannu arfer ar draws Awdurdodau Lleol o ran y modd y maent yn **craftu** ar eu camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Bydd y gwaith hwn yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect *Heat is On* a gynhaliodd NEA gydag Awdurdodau Lleol Casnewydd a Sir Gaerfyrddin yn 2009-10.

Mae gan **gyflenwyr ynni** rôl allweddol i'w chwarae o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy eu rhwymedigaethau cymdeithasol a'u rhwymedigaethau i leihau carbon. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn cyfarfod â chyflenwyr ynni ac Ofgem yn ystod cyfarfodydd bord gron bob chwe mis. Diben y cyfarfodydd yw darparu fforwm i Lywodraeth y Cynulliad a chyflenwyr ynni i drafod ein polisiâu mewn perthynas â thlodi tanwydd. Caiff y ford gron ei disodli gan y **Fforwm Ynni**. Bwriedir i dlodi tanwydd fod yn rhan bwysig o'r fforwm, gan ddarparu llwyfan ar gyfer trafodaethau lefel-uchel rhwng Llywodraeth y Cynulliad a chyflenwyr ynni.

Cynhelir hefyd gyfarfodydd rheolaidd â chyflenwyr ynni unigol, y Gymdeithas Manwerthu Ynni (ERA) ac Ofgem. Diben y cyfarfodydd hyn yw trafod camau penodol y mae cyflenwyr ynni unigol yn eu cymryd yng Nghymru.

Yn y DU, rydym yn rhan o'r **Grŵp Tlodi Tanwydd Rhyng-weinidogol** sy'n rhoi cyfle i Weinidogion o Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig drafod materion trawsbynciol. Byddwn yn parhau i sicrhau y caiff anghenion deiliaid tai yng Nghymru eu hystyried yn llawn mewn trafodaethau ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer y DU gyfan.

Bellach mae gan **Ofgem** Gyfarwyddwr i Gymru, yr Alban a'r Rhanbarthau ac mae wedi cynyddu ei bresenoldeb yng Nghymru yn ddiweddar. Rydym yn gweithio i annog mwy o gyswllt effeithiol rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac Ofgem.

### 3.3 Sicrhau'r Incwm Mwyaf Posibl

Incwm yw cyfanswm yr arian a gaiff cartref mewn cyfnod penodol o amser. Gall incwm gynnwys arian a geir drwy enillion, hunangyflogaeth, budd-daliadau, pensiynau galwedigaethol a buddsoddiadau, ar ôl didynnu treth incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, trethi llywodraeth leol a didyniadau penodol eraill.

Wrth asesu a yw cartref mewn tldodi tanwydd, edrychwn ar faint o arian a gaiff ei wario ar danwydd yn y cartref fel canran o'r Incwm Llawn. Incwm Llawn yw cyfanswm incwm y cartref, gan gynnwys Budd-dal Tai neu Gymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais (ISMI). Er ein bod yn bwriadu parhau i fesur tldodi tanwydd gan ddefnyddio'r diffiniad o Incwm Llawn, byddwn yn ystyried manteision cynnwys mesur

o dlodi tanwydd yn erbyn y diffiniad o Incwm Sylfaenol (sy'n eithrio costau tai) fel rhan o'n gwaith i ddatblygu'r Cynllun Monitro a Gwerthuso.

Y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar incwm yw:

### 3.3.1 Y System Budd-daliadau

#### *Rôl Partneriaid*

Caiff y system budd-daliadau ei rheoli'n uniongyrchol gan Lywodraeth y DU ac mae ganddi'r potensial i gael effaith ar dlodi tanwydd yn syth. Mae hyn yn arbennig o wir o ran **Taliadau Tanwydd Gaeaf**.

Rydym yn bwriadu gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU i ystyried p'un a ellir gwneud newidiadau i'r meini prawf cymhwyso a'r dull o dalu yn y dyfodol (byddai talu cwmnïau ynni yn uniongyrchol yn cael effaith fawr ar dlodi tanwydd).

Gallai gwaith sy'n mynd rhagddo i rannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyflenwyr ynni, a phwerau grymuso newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Ynni 2010, ddarparu model defnyddiol ar gyfer adolygu'r Taliadau Tanwydd Gaeaf.

#### *Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Byddwn yn sicrhau y caiff deiliaid tai eu helpu i nodi'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael a gwneud cais amdanynt. Ar hyn o bryd rydym yn darparu **Gwiriadau Hawl i Fudd-dal** drwy'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Fodd bynnag, yn y dyfodol, drwy ddatblygu'r rhwydwaith atgyfeirio, hoffem weld pobl yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau addas a all eu tywys drwy'r broses. Rydym yn ymwybodol nad yw rhai pobl ar hyn o bryd yn manteisio ar y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael. Bydd angen mwy o gymorth rhagweithiol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn helpu deiliaid tai i wneud cais am eu budd-daliadau.

Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd o ran rhoi Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar waith. Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru, **Mae Pawb yn Cyfrif**, yn nodi'r angen i ddarparu gwasanaeth cynghori integredig ar sut y gall cartrefi reoli eu dyledion yn well a chynyddu eu hincwm drwy fanteisio ar fudd-daliadau neu leihau eu gwariant gyda chynghor arbenigol ar arian.

Ymhlith y camau allweddol mae:

- Cynnwys tlodi tanwydd yng ngwaith y tîm newydd **Eiriolwyr Cynhwysiant Ariannol Cymru** a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Gweithio gyda'r Tîm Eiriolwyr Cynhwysiant Ariannol i godi ymwybyddiaeth o ffynonellau cyngor am ddim a diduedd ar ddyled, ffurfio partneriaethau rhwng asiantaethau **cyngor ar ddyled** a benthyccwyr lleol yn y trydydd sector.

- Datblygu mudiad **undebau credyd** cryf a chynaliadwy ledled Cymru, sy'n hygyrch i bob dinesydd ac sydd â'r gallu a'r adnoddau i ddarparu ystod eang o wasanaethau ariannol fforddiadwy.
- Annog **pobl i agor cyfrifon banc sylfaenol** a defnyddio gwasanaethau ariannol prif ffrwd eraill.
- Cynnwys **lleyddiaeth ariannol yn y cwricwlwm ysgol** a darparu cymorth i athrawon ac ysgolion gynllunio a darparu addysg ariannol.
- Cyflwyno **rhaglennu gallu ariannol** mewn colegau addysg bellach ledled Cymru.

Ble y mae'n flaenoriaeth bydd **Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf** yn gweithredu i sicrhau'r incwm mwyaf i bobl mewn ardaloedd amddifadus.

### 3.3.2 Cyflogaeth

#### *Rôl Partneriaid*

Gall partneriaid sicrhau bod eu rhaglenni'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth a busnes yng Nghymru. Er enghraifft, drwy'r Rhaglen **arbed**, mae darparwyr tai cymdeithasol yn gweithio i sicrhau y caiff busnesau lleol gyfle i roi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith a bod cyfleoedd hyfforddi ar gael i bobl leol.

#### *Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Mae buddsoddiad mewn perfformiad ynni domestig - o ystyried ei natur lafur-ddwys - yn cynnig cyfle gwirioneddol i greu cyfleoedd economaidd i fusnesau yng Nghymru (o ran dylunio, gweithgynhyrchu, dosbarthu, gosod a chynnal a chadw technolegau adnewyddadwy a mesurau effeithlonrwydd ynni) a chyfleoedd cyflogaeth i bobl yng Nghymru (mewn galwedigaethau/sectorau medrus neu fedrus iawn). Hefyd, os yw biliau ynni yn is, bydd gan ddeiliaid tai fwy o arian i'w wario yn yr economi leol. Mae gwella perfformiad ynni tai felly yn helpu i greu swyddi ac felly'n cynnig cyfleoedd i gynyddu incymau lleol a gall hefyd helpu i gefnogi swyddi eraill yn yr economi leol.

Byddwn yn rhoi nifer o ymyriadau trawsbynciol ar waith i sicrhau y gellir gwireddu holl fanteision economaidd buddsoddi mewn perfformiad ynni domestig yng Nghymru. Bydd y rhain yn cynnwys:

- **Cymorth busnes** (technegol ac ariannol) i fusnesau a mentrau cymdeithasol yng Nghymru.
- **Cymorth** i Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ymchwilio i dechnolegau effeithlonrwydd ynni/ynni adnewyddadwy a'u datblygu.
- Prosiectau (arddangos a pheilot) **arloesol**.
- **Sgiliau a hyfforddiant** i bobl leol mewn galwedigaethau/sectorau perthnasol drwy amrywiaeth o weithgareddau a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad a/neu arian Ewropeaidd (er enghraifft, JobMatch).

- **Cymalau cymdeithasol** mewn gweithgareddau caffael cyhoeddus sy'n hyrwyddo mentrau recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu ar gyfer pobl leol sy'n economaidd anweithgar.

Byddwn yn creu **dull Cymru gyfan o weithredu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni** o dan faner arbed. Byddwn yn sefydlu tîm trawsadrannol pwrpasol i gryfhau'r gadwyn gyfl enwi yng Nghymru ac yn cyhoeddi strategaeth rhaglen fer i ymhelaethu ar hyn.

Bydd y **rhaglen tlodi tanwydd ar gyfer Cymru gyfan** yn cynnwys cyflogaeth leol a gofyniad i gynnog cyfleoedd hyfforddi fel meini prawf allweddol. Mae'r Rhaglen **arbed** yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd cyflogaeth a busnes lleol a darparu hyfforddiant lleol.

### 3.4 Helpu Pobl i Dalu Llai am Ynni

Dylanwedir ar gyfanswm yr arian y mae unigolyn neu gartref yn ei wario ar filiau ynni cartref gan ei gyflenwr ynni, y tariff, y math o danwydd(au) a ddefnyddir a'r opsiynau sydd ar gael. Mae'n bwysig hefyd gydnabod bod pobl mewn tlodi yn fwy tebygol o dalu premiwm am wasanaethau (er enghraifft, byddai diffyg cyfrif banc yn golygu na allai deiliad tŷ gael cyfradd ostyngol drwy dalu drwy ddebyd uniongyrchol).

Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar y pris y mae pobl yn ei dalu am ynni yw:

#### 3.4.1 Prisiau Ynni Cyfanwerthol

##### ***Rôl Partneriaid***

Drwy godi trethi, mae Llywodraeth y DU yn dylanwadu'n anuniongyrchol ar brisiau ynni cyfanwerthol. Mae gan Ofgem, fel rheoleiddiwr economaidd y sector, rôl allweddol o ran sicrhau marchnad ynni gystadleuol. Mae gan gyflenwyr ynni hefyd rôl i'w chwarae o ran sicrhau y caiff gostyngiadau mewn prisiau ynni cyfanwerthol eu trosglwyddo i ddefnyddwyr yn brydlon.

##### ***Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru***

Drwy weithio gyda chyflenwyr ynni ac Ofgem, byddwn yn parhau i geisio sicrhau bod arbedion, pan fyddant yn codi, yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr.

#### 3.4.2 Tariffau

##### ***Rôl Partneriaid***

Drwy Ddeddf Ynni 2010, mae Llywodraeth y DU wedi cymryd pwerau a fydd yn ei galluogi i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni roi cymorth gyda biliau ynni i gartrefi incwm isel sy'n wynebu tlodi tanwydd ac sy'n agored i niwed. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU i sicrhau y caiff unrhyw gymorth a roddir drwy arfer y pwerau hyn ei dargedu mor effeithiol â phosibl at y rheini mewn tlodi tanwydd.



Mae Ofgem yn monitro'r farchnad ddomestig a gall newid rheoliadau sy'n pennu'r ffordd y mae cwmnïau ynni yn gosod tariffau. Mae Deddf Ynni 2010 hefyd wedi egluro rôl Ofgem fel rheoleiddwr o ran diogelu buddiannau defnyddwyr presennol a defnyddwyr yn y dyfodol. Rhaid i **Ofgem** wneud y canlynol: cynnwys lleihau allyriadau carbon a darparu cyflenwadau ynni diogel yn ei asesiad o fuddiannau defnyddwyr; ymyrryd yn rhagweithiol i ddiogelu buddiannau defnyddwyr yn ogystal ag ystyried camau gweithredu tymor hwy i hyrwyddo cystadleuaeth.

Rydym yn cefnogi'r gwaith y mae Ofgem wedi ei wneud hyd yma i gael gwared ar wahaniaethau annheg mewn prisiau ac rydym yn cefnogi ei gynigion i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bobl ddewis y tariff a'r cyflenwr gorau iddynt hwy. Byddwn yn parhau i herio'r cwmnïau ynni i wneud mwy.

### ***Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru***

Un agwedd bwysig ar y gwaith o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru fydd sicrhau bod deiliaid tai ar y **tariff ynni gorau** i'w hamgylchiadau. Er nad yw prisiau ynni yn fater datganoledig, byddwn yn parhau i weithio gyda chyflenwyr ynni ac Ofgem i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyingor ar yr amrywiaeth o dariffau sydd ar gael a pha dariff fydd yn diwallu eu hanghenion orau.

Drwy sefydlu pwynt cydgysylltu canolog ar gyfer atgyfeiriadau, byddwn yn sicrhau bod protocolau ar waith i atgyfeirio galwyr at y gwasanaeth mwyaf priodol i roi cyngor ar dariffau ynni a newid cyflenwyr.

Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru, **Mae Pawb yn Cyfrif**, yn nodi'r angen i ddarparu gwasanaeth cyngori integredig o ran sut y gellir lleihau biliau cyfleustodau drwy wella effeithlonrwydd ynni. Ymhlith y mesurau allweddol i annog a chynorthwyo pobl i leihau biliau cyfleustodau mae:

- Helpu deiliaid tai i ystyried p'un a allai **newid** cyflenwyr ynni eu helpu i gael y fargen orau.
- Helpu i sicrhau bod y cartrefi sydd fwyaf agored i niwed yn manteisio ar **dariffau cymdeithasol** er mwyn sicrhau y gallant brynu ynni'n rhatach.
- Gwneud cartrefi'n fwy **ynni effeithlon**.

### **3.4.3 Y math o danwydd a ddefnyddir i wresogi'r cartref**

#### ***Rôl Partneriaid***

Er mwyn cydnabod y ffaith bod llawer o ddeiliaid tai, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, yn agored i amrywiadau yn y marchnadoedd **olew a nwy petrolewm hylifol** (LPG), bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i alw am farchnad a reoleiddir, ac yn annog partneriaid i wneud hynny.

## ***Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru***

Drwy'r rhwydwaith atgyfeirio bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu ac yn **rhannu gwybodaeth** am yr opsiynau sydd ar gael i'r rheini sy'n dibynnu ar olew ac LPG i wresogi eu cartrefi.

Drwy'r Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan a Rhaglen Ynni'r Fro, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn **gwella'r gallu i gael gafael ar ynni cynaliadwy**, gan leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil drud a/neu sy'n amrywio o ran pris.

### **3.4.4 Y gallu i gael gafael ar ynni adnewyddadwy**

#### ***Rôl Partneriaid***

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei hymrwymiad i'r **Tariff Cyflenwi Trydan** a gyflwynwyd yn ddiweddar mewn perthynas â chynhyrchu trydan adnewyddadwy. Cynhaliodd Llywodraeth flaenorol y DU ymgynghoriad ar gyflwyno **Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy** mewn perthynas â chynhyrchu gwres adnewyddadwy.

Rydym yn annog cartrefi, cymunedau a busnesau i fanteisio ar y cyfle y mae'r cymhelliannau hyn yn ei gynnig.

Mae'r cymhelliannau hyn yn cynnig **cyfle i fusnesau, awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol** fuddsoddi mewn gwella perfformiad ynni cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd drwy ddarparu mesurau cynhyrchu ynni am ddim (i'r deiliad tŷ). Yna byddai'r tariff yn darparu ffrwd refeniw sicr i ddarparwr y mesur.

## ***Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru***

Mae **Datrysiad Carbon Isel** yn amlinellu graddfa bosibl dulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yng Nghymru, tra'n pwysleisio pwysigrwydd mesurau effeithlonrwydd ynni. Byddai symud tuag at grid carbon isel yn darparu sicrwydd ynni i Gymru ac yn helpu i warchod cartrefi rhag cynnydd mewn prisiau tanwydd.

Bydd ein rhaglenni perfformiad ynni domestig yn mabwysiadu **dull gweithredu ar gyfer y cartref cyfan**. Argymhellir mesurau ar gyfer gwella ar sail y mesurau sydd fwyaf priodol a chosteffeithiol i wella perfformiad ynni cartrefi, a gallent gynnwys technolegau ynni adnewyddadwy.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan, byddwn yn gweithio gyda darpar ddarparwyr i fanteisio'n llawn ar y Tariff Cyflenwi Trydan a mentrau yn y dyfodol i gefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy. Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio'r refeniw a geir er budd rhagor o gartrefi.

O ran cyflenwi, rydym yn cynorthwyo busnesau drwy Gymorth Hyblyg i Fusnes a'r Ymddiriedolaeth Garbon. At hynny, er mwyn sicrhau bod manteision twf busnes y Tariff Cyflenwi Trydan a chymhelliannau eraill yn y dyfodol yn parhau yng Nghymru, rydym yn cyflwyno cymorth i fusnesau bach a chanolig ennill yr achrediad gan y

**Cynllun Ardystio Microgynhyrchu**, sydd ei angen i gymhwyso ar gyfer y cymhelliannau hyn.

Bydd ein prosiect **Ynni'r Fro** yn buddsoddi £14m i ddatblygu 22 o brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol ledled Cymru. Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys gwasanaeth swyddog datblygu er mwyn helpu i feithrin gallu cymunedau, rhoi cyngor technegol, helpu cymunedau i sicrhau cyllid, nodi anghenion hyfforddi, ac egluro cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu i gymunedau.

Gwnaethom newidiadau y llynedd i'r **Rheoliadau Cynllunio** er mwyn galluogi deiliaid tai i osod rhai mathau o dechnolegau microgynhyrchu megis paneli solar ar eu heiddo heb fod angen caniatâd cynllunio. Byddwn yn ystyried ymestyn yr hawliau hyn i dechnolegau eraill er mwyn dileu'r rhwystrau i ddefnyddio technolegau microgynhyrchu.

O fis Rhagfyr 2011, bydd gennym y pwerau i ddefnyddio **Rheoliadau Adeiladu** i wella perfformiad ynni adeiladau ac o bosibl annog ynni adnewyddadwy. Sefydlwyd prosiect trawsadrannol i ddatblygu cynigion i wneud newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu gyda'r nod o leihau carbon yn sylweddol (tra'n ystyried yr effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd).

### **3.5 Gwella Perfformiad Ynni Cartrefi**

Mae Perfformiad Ynni Cartrefi yn ymwneud â pha mor ynni effeithlon yw eiddo a'i system wresogi ac felly faint o ynni, ac arian, sydd ei angen i'w gadw'n gynnes. Mae adeiladwaith yr eiddo a sut mae deiliaid tai yn defnyddio ynni yn eu cartrefi yn dylanwadu ar hyn. Gall arfer ac angen ddylanwadu ar hyn (er enghraifft, efallai y bydd angen i rai pobl ddefnyddio eu system wresogi am ran fwy o'r diwrnod).

Y prif ddulliau sydd ar gael i wella perfformiad ynni cartrefi a lleihau faint o ynni a ddefnyddir yw:

#### **3.5.1 Newid ymddygiad defnyddwyr**

##### ***Rôl Partneriaid***

Mae llawer o ddarparwyr cyngor ar ynni yng Nghymru. Er enghraifft, ariennir yr **Ymddiriedolaeth Arbed Ynni** gan Lywodraeth y DU i roi cyngor i gartrefi yng Nghymru ar arbed ynni a lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd yn bwysig i ddarparwyr cyngor weithio gyda'r rhwydwaith atgyfeirio y byddwn yn ei ddatblygu er mwyn sicrhau y caiff deiliaid tai'r cyngor sydd ei angen arnynt.

##### ***Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru***

Bydd ein **Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd** yn amlinellu sut y gall newid ymddygiad defnyddwyr gyfrannu at arbed ynni a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae gan fentrau **newid ymddygiad** rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau ein bod yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o leihad mewn allyriadau a nodir mewn polisiau a rhaglenni eraill.

Dylai rhaglenni effeithlonrwydd ynni gynnwys elfen cyngor a chymorth er mwyn sicrhau bod pobl yn cyfranogi ac yn gwneud y dewisiadau cywir. Bydd y cymorth hwnnw yn: hysbysu pobl am y cynigion sydd ar gael; eu darbwyllo i fanteisio arnynt - gan gynnwys rhoi sicrwydd i bobl am gyfreithlondeb y cynigion; helpu pobl i ddewis y mesurau cywir ar gyfer eu hamgylchiadau penodol; a sicrhau eu bod yn gwybod sut i wneud y defnydd gorau o unrhyw dechnoleg newydd (a all fod mor syml ag esbonio sut i ddefnyddio'r systemau rheoli ar foeler newydd). Mae angen sicrhau hefyd bod y rhai sy'n derbyn gwelliannau i berfformiad ynni yn deall y negeseuon am arbed carbon, er mwyn osgoi defnyddio mwy o ynni mewn eiddo a gaiff ei wella.

Byddwn yn sicrhau bod ymgyrchoedd a mentrau newid ymddygiad yn ystyried amgylchiadau'r rheini mewn tlodi tanwydd, ac yn gweithio gyda'r pwynt cyswllt canolog i sicrhau y caiff y rheini sydd mewn tlodi tanwydd eu cynnwys mewn mentrau lleol a chenedlaethol a'u bod yn cael budd ohonynt.

Bydd angen i'r **pwnt cydgysylltu canolog** ar gyfer cyngor gydnabod anghenion grwpiau gwahanol a chyfraniad darparwyr cyngor gwahanol. Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff y gwaith o osod mesurau o dan ein rhaglenni ei ategu gan gymorth digonol i alluogi deiliaid tai i ddefnyddio'r dechnoleg mor effeithiol â phosibl er mwyn sicrhau'r buddiannau mwyaf. Mae'n bwysig hefyd nodi, er y bydd meini prawf cymhwyso ar gyfer cael mesurau a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ni fydd unrhyw gyfyngiadau ar bwy all gael cyngor neu gael ei atgyfeirio drwy'r pwynt cydgysylltu canolog.

### 3.5.2 Gwella perfformiad ynni cartrefi

#### *Rôl Partneriaid*

Mae gan gyflenwyr ynni rôl allweddol i'w chwarae o ran gwella perfformiad ynni cartrefi yng Nghymru drwy gyrraedd y **Targed Lleihau Allyriadau Carbon**, cyflawni'r **Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned** a bodloni rhwymedigaethau cyflenwyr yn y dyfodol.

Mae'r Targed Lleihau Allyriadau Carbon yn darparu gwasanaeth inswleiddio atig a wal geudod a byddwn yn sicrhau nad ydym yn cystadlu â'r cyflenwyr ynni i ddarparu'r mesurau hyn. Byddwn yn gweithio gyda chyflenwyr i ddatblygu **Cytundeb Lefel Gwasanaeth** i sicrhau nad yw'r Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan yn cystadlu â'r gwaith o gyrraedd y Targed Lleihau Allyriadau Carbon.

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyflenwyr ynni i ddatblygu prosiectau'r Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned yng Nghymru. Defnyddiwyd y Rhaglen **arbed** fel dull o ddenu buddsoddiad yn y Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned i Gymru.

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer **rhwymedigaethau cyflenwyr ynni yn y dyfodol**. Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyflenwyr ynni, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y trydydd sector gydweithio i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio i'r eithaf ar y rhwymedigaeth newydd o ddiwedd 2012 ymlaen.

Mae gan Lywodraeth y DU y pŵer (hyd nes fis Rhagfyr 2011) i ddefnyddio'r **Rheoliadau Adeiladu** i annog perfformiad ynni o safon uwch mewn cartrefi.

Mae angen **Tystysgrifau Perfformiad Ynni** wrth werthu neu rentu eiddo. Maent yn darparu gwybodaeth i deiliaid tai a landlordiaid am effeithlonrwydd ynni eu heiddo ac maent yn ddefnyddiol ar gyfer nodi'r arbedion posibl a ddaw wrth wella perfformiad ynni cartrefi.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i ystyried y posibiladau o ddefnyddio Tystysgrifau Perfformiad Ynni yn rhagweithiol.

### ***Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru***

Byddwn yn datblygu **Cynllun Tlodi Tanwydd** newydd a gwell ar gyfer Cymru gyfan a fydd yn helpu deiliaid tai unigol i wella perfformiad ynni eu cartrefi a lleihau effaith biliau tanwydd. Byddwn hefyd yn datblygu rhaglenni i wella perfformiad ynni y stoc dai mewn ardaloedd penodol.

Bydd Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan yn disodli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ym mis Ebrill 2011 a bydd yn:

- Sicrhau y gellir manteisio ar y cynllun drwy bwynt cydgysylltu canolog. Gellir cael gwybodaeth am y cynllun drwy ffonio rhif ffôn Rhadffon a thrwy fynd ar y we.
- Darparu mesurau gwella perfformiad ynni a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad i'r deiliaid tai hynny yr ystyrir eu bod fwyaf tebygol o fod mewn tlodi tanwydd difrifol.
- Darparu mesurau yn seiliedig ar asesiad o'r tŷ cyfan yn nodi'r ffordd fwyaf costeffeithiol o wella perfformiad ynni'r eiddo.
- Darparu amrywiaeth o fesurau a lefel o gymorth a bennir gan y math o dŷ.
- Cysylltu cymhwysedd i gael mesurau a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad â pherfformiad ynni'r eiddo (gradd F a G ar y Tystysgrif Perfformiad Ynni i ddechrau) a'r dystiolaeth orau sydd ar gael o ran y grwpiau sydd fwyaf tebygol o ddiodeff tlodi tanwydd (deiliaid tai sy'n cael Budd-dal yn seiliedig ar Brawf Modd fydd y rhain i ddechrau).
- Darparu elfen o gymorth nad yw'n seiliedig ar brawf modd drwy ddarparu grant rhannol ar gyfer inswleiddio atig a wal geudod i deiliaid tai yr ystyrir eu bod yn agored i niwed yn sgîl effeithiau tlodi tanwydd. Mae'r diffiniad o gartrefi sy'n agored i niwed a gymhwysir mewn perthynas â'r grant rhannol fel a ganlyn:
  - Deiliaid tai sydd dros 60 oed.
  - Deiliaid tai sy'n anabl neu sydd â salwch cronig; neu
  - Cartrefi sydd â phlant a phobl ifanc dan 25 oed.

- Pennir y grant rhannol ar lefel a fydd yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyllid gan y cyflenwr ynni a mathau eraill o gyllid yn gyntaf, a bydd yn darparu cymorth 'wrth gefn' os bydd problem o ran cael gaffael ar gyllid gan y cyflenwr ynni neu fath arall o gyllid ledled y DU er mwyn inswleiddio atig neu wal geudod am ddim neu am bris gostyngol.

Yn ystod proses gaffael y Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan, byddwn yn rhannu dadansoddiad o gostau a buddiannau'r cynllun gyda rhanddeiliaid. Bydd y dadansoddiad hwn yn defnyddio canfyddiadau'r **Treial Asesu Tŷ Cyfan**. Bydd y dadansoddiad hwn yn darparu amlinelliad o'r hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni drwy'r cynllun fel isafswm a byddwn yn gweithio gyda chynigwyr y rhoddwyd gwahoddiad iddynt gyflwyno tendr i archwilio'r cyfleoedd i wneud y mwyaf o gyllid o ffynonellau eraill, megis y Tariff Cyflenwi Trydan, er mwyn cyflawni mwy.

Yn ogystal â'r cynllun yn seiliedig ar alw a nodir uchod, byddwn yn parhau i fynd ar drywydd dull cyfochrog o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn seiliedig ar ardal. Sefydlwyd y Rhaglen **arbed** i sicrhau buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd drwy wella perfformiad ynni cartrefi ar draws deiliadaethau fesul cymuned.

Mae'r Rhaglen yn cydgysylltu cyllidebau ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad ac fe'i dyfeisiwyd i gyflawni'r effaith fwyaf drwy sicrhau màs critigol o weithgarwch mewn cymunedau difreintiedig a thrwy ddenu cyllid ychwanegol, er enghraifft drwy'r Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned a thrwy gydgysylltu rhaglenni cynnal a chadw darparwyr tai cymdeithasol. Mae cam cyntaf **arbed** yn mynd rhagddo gyda phrosiectau'n cael eu cyflawni gan ddarparwyr tai cymdeithasol. Rydym wrthi'n datblygu cynllun busnes i sicrhau cymorth gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd sydd ar gael mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni domestig ar gyfer ail gam **arbed**.

Mae nodweddion allweddol camau presennol y Rhaglen **arbed** ac unrhyw gamau yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Canolbwyntir mesurau i wella perfformiad ynni ar gymunedau neu strydoedd cyfan er mwyn annog arbedion maint a buddiannau economaidd.
- Darperir y rhaglen drwy bartneriaid, gan gynnwys darparwyr tai cymdeithasol, gyda phwyslais ar ddatblygu gallu o fewn y sefydliadau hyn.
- Bydd y mesurau sydd ar gael yn seiliedig ar asesiad o angen y tŷ cyfan.
- Anelir y Rhaglen at gymunedau lle mae nifer fawr o gartrefi yn debygol o fod mewn tlodi tanwydd.
- Bydd yn ofynnol i ddarparwyr y prosiectau ymrwymo i ddarparu cyfleoedd hyfforddi i bobl leol.
- Bydd pwyslais ar ddefnyddio cyflenwyr a gosodwyr lleol.
- Bydd angen i brosiectau achub ar gyfleoedd i alinio cyllid **arbed** gyda chyllid arall a geir.

Bydd gweithredu a chynnal **Safon Ansawdd Tai Cymru** mewn tai cymdeithasol yn helpu i gadw cost gwresogi cartrefi yn y sector hwn yn is. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn nodi gradd SAP ofynnol o 65 allan o 100 posibl (sy'n gyfwerth â gradd D ar y Dystysgrif Perfformiad Ynni). Mae **Gwella Bywydau a Chymunedau** yn nodi y caiff Safon Ansawdd Tai Cymru ei hadolygu i weld p'un a ellir gwneud mwy i gefnogi camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac eir ar drywydd rhagor o wybodaeth i fesur cynnydd yn ei herbyn.

Rydym hefyd yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i wella safonau yn y sector preifat, yn arbennig mewn **Ardaloedd Adnewyddu** a arweinir gan dai ac sy'n cynnwys gwelliannau sylweddol i effeithlonrwydd ynni cartrefi yn aml fel rhan o raglen wella ehangach. Mae grantiau i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi pobl sy'n prynu am y tro cyntaf mewn Ardaloedd Adnewyddu hefyd yn cael eu treialu gan 17 o Awdurdodau Lleol.

O fis Rhagfyr 2011, byddwn yn gallu defnyddio pwerau i ddiwygio **Rheoliadau Adeiladu** i helpu i wella perfformiad ynni eiddo a sicrhau bod y gost o wresogi cartrefi newydd yn parhau i ostwng.

Amcangyfrifir bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o gartrefi yn y sector rhentu preifat mewn tlodi tanwydd (17 y cant o gymharu â chyfartaledd o 11 y cant ar draws pob deiliadaeth yn 2004). Un opsiwn ar gyfer annog landlordiaid i wella perfformiad ynni eu heiddo yw amlygu'r ffaith y gall eiddo sy'n arbennig o aneffeithlon gael effaith andwyol ar iechyd tenantiaid, gan beri 'perygl categori 1' o bosibl o dan y **System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai**.

Credwn y gall y cynigion canlynol helpu i annog landlordiaid i wella perfformiad ynni eu heiddo a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i'w rhoi ar waith:

- Cyhoeddi canllawiau ar y cyswllt rhwng eiddo gradd F a G a Pheryglon Categori 1 o dan y System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai.
- Rhoi cyngor i landlordiaid ar y cymorth sydd ar gael iddynt i sicrhau nad yw eu heiddo yn beryglus lle bo'r canlynol yn berthnasol:
  - Caiff eu heiddo radd F neu G ar Dystysgrif Perfformiad Ynni.
  - Awgryma asiantaethau allanol y gallai'r eiddo fod yn beryglus.
- Cysylltu â landlordiaid mewn ardaloedd â chyfrannau uchel o eiddo wedi'u rhentu'n breifat sy'n debygol o fod yn rhai gradd F neu G (e.e. ardaloedd â niferoedd uchel o gartrefi waliau solet nad ydynt wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy).
- Cyfeirio landlordiaid sy'n gwrthod caniatáu i fesurau a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad neu gwmni ynni gael eu gosod yn eu heiddo i gael eu harchwilio o dan y System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai.

Byddwn yn darparu cyllid i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn 2010-11, o dan y **Rhaglen Gymorth Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai**, er mwyn cynnal prosiect i ddatblygu a threialu, mewn ardal benodol, dull o helpu awdurdodau lleol i annog landlordiaid yn y sector preifat i wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i'w heiddo a manteisio ar ffynonellau cyllid sydd ar gael.



## 4. Monitro a Gwerthuso

Bydd deall graddau a dosbarthiad tlodi tanwydd yn hanfodol i helpu i weithio tuag at ein targedau tlodi tanwydd. Mae angen i ni gael gwybodaeth well a mwy rheolaidd i'n helpu i dargedu ein polisiau a'n rhaglenni mor effeithiol â phosibl.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso a fydd yn cwmpasu:

- Cynnydd tuag at dargedau statudol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010, 2012 a 2018.
- Gwerthuso'r Strategaeth hon.
- Nodi bylchau mewn data.
- Nodi cyfleoedd i ddatblygu'r sail dystiolaeth o ran effaith tlodi tanwydd, yn arbennig ar iechyd.
- Dulliau o fesur targedau a chanlyniadau gweithgarwch dros dro a fydd yn rhoi darlun blynyddol o gynnydd tuag at fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- Trefniadau cyflwyno adroddiadau, gan gynnwys adroddiad blynyddol.
- Adolygiadau proses.
- Monitro a gwerthuso'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, y Rhaglen Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan ac **arbed**.

Bydd y wybodaeth i'w chynnwys yn ein gwaith monitro a gwerthuso yn y dyfodol yn cynnwys:

- Nifer y cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd.
- Difrifoldeb tlodi tanwydd.
- I ba raddau y mae pobl yn manteisio ar ein rhaglenni a ph'un a yw unrhyw grwpiau yn wynebu rhwystrau sylweddol i wneud hynny.
- Perfformiad ynni eiddo.
- Y lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (gan gynnwys y cyfraniad tuag at y targed 3%).
- Gwariant cartrefi ar danwydd (gan gynnwys cyn ac ar ôl gwelliannau i berfformiad ynni).

Caiff y gwaith o ddatblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso ei lywio gan ddata Arolwg Byw yng Nghymru 2008, a fydd ar gael yn ystod yr hydref. Bwriedir i'r Cynllun fod yn ddogfen 'weithredol' a chaiff ei ddiweddarau pan fydd data newydd ar gael.

Byddwn yn gweithio gyda **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd** a rhanddeiliaid eraill i ddod o hyd i gyfleoedd i rannu data a allai helpu i lywio camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru, lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd y Grŵp hefyd yn darparu adroddiad blynyddol i'r Gweinidog ar ei weithgareddau.

Bydd y Cynllun ar gael i'r cyhoedd a chaiff cynnydd Llywodraeth y Cynulliad o ran cyrraedd y targedau gweithgarwch dros dro, a gweithio tuag at dargedau statudol, ei fonitro a chyflwynir adroddiad arno'n flynyddol i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd.

Mae gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd hefyd rôl allweddol i'w chwarae o ran cyfrannu at ein dealltwriaeth o dlodi tanwydd. Rhan bwysig o'i rôl yw:


- Ystyried y gwaith o fonitro'r Strategaeth Tlodi Tanwydd a chyflwyno adroddiad arno.
- Archwilio effeithiolrwydd polisiau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran lleihau tlodi tanwydd.
- Nodi meysydd lle y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil i dlodi tanwydd.

# Atodiad 1

## 1. Dadansoddiad o Ddata Tlodi Tanwydd

Pasiwyd y Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni yn 2000, a chyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Tanwydd gyntaf Cymru yn 2003. Hyd at 2004, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

### Siart 1: Gostyngodd tllodi tanwydd hyd at 2004, ond mae wedi codi ers hynny



Ffynonellau: 6<sup>ed</sup> Adroddiad Blynyddol Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU 2008; Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2004 - prif ystadegau tllodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer 2005 a 2006.

Fodd bynnag, gwyrddwyd y cynnydd cadarnhaol hwn yn 2004. Awgrymodd data o arolwg eiddo Byw yng Nghymru yn 2004, a gwaith modelu dilynol, fod nifer y cartrefi yng Nghymru sydd mewn tllodi tanwydd wedi cynyddu'n sylweddol (fel y nodir yn Nhabl 1).

**Tabl 1: Niferoedd amcangyfrifedig o gartrefi mewn tllodi tanwydd**

Blwyddyn	Amcangyfrif o gyfanswm y cartrefi mewn tllodi tanwydd	Amcangyfrif o nifer y cartrefi agored i niwed sydd mewn tllodi tanwydd
2004	134,000	115,000
2005	166,000	142,000
2006	240,000	209,000

Ffynhonnell: Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2004 - prif ystadegau tllodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer 2005 a 2006.

Er bod rhaglenni Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad wedi helpu i sicrhau bod perfformiad ynni cartrefi wedi parhau i wella ers 2000 (gweler Tabl 2), mae prisiau ynni wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig ers 2004 (gweler Siart 2). Mae'r

duedd o ran y cynnydd mewn costau tanwydd yn cyfateb i'r cynnydd mewn tlodi tanwydd ers 2004.


**Tabl 2: Gweithgarwch effeithlonrwydd ynni**

	<b>HEES (cartrefi a gynorthwyr)</b>	<b>Rhwymedigaethau cyflenwyr</b>
2001/2	11,021	dd/g
2002/3	14,466	11,419*
2003/4	12,572	26,525*
2004/5	13,149	53,969*
2005/6	9,834	Disgwyllir data yn ddiweddarach yn 2010
2006/7	13,739	Disgwyllir data yn ddiweddarach yn 2010
2007/8	18,647	Disgwyllir data yn ddiweddarach yn 2010
2008/9	15,199	Disgwyllir data yn ddiweddarach yn 2010

\*Gosodiadau cwmnïau ynni fel y'u nodir gan Gronfa Ddata Effeithlonrwydd Ynni Cartref yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Er gwaethaf y dirwasgiad, mae'r incwm sydd gan gartrefi i'w wario wedi'i gynnal yn gymharol dda, gyda chymorth chwyddiant sy'n gostwng, sydd wedi galluogi rhai cartrefi i ymdopi â'r cynnydd mewn prisiau tanwydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys i bob cartref. Yn benodol, bydd yr effaith ar gartrefi lle bu colledion swyddi yn ystod y dirwasgiad wedi bod yn andwyol. Mae'r farchnad lafur yng Nghymru wedi dirywio'n gyflym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda chyfraddau cyflogaeth yn gostwng 2.9 y cant, diweithdra'n cynyddu 2.6 y cant ac anweithgarwch yn cynyddu 0.9 y cant. Mae'r cynnydd mewn diweithdra wedi cael yr effaith fwyaf ar gymunedau sy'n agored i niwed sydd wedi gweld lefelau uchel o ddiweithdra a thlodi yn y gorffennol, gan roi pwysau ar eu gallu i osgoi tlodi tanwydd.


## Siart 2: Prisiau cynyddol tanwydd



Ffynhonnell: Tueddiadau a Phrisiau Ynni BERR Awst 2009.

Er gwaethaf y ffaith bod prisiau tanwydd wedi bod yn gostwng yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig olew gwresogi (sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd economaidd yn 2008/9), y duedd sy'n debygol o gael ei gweld yn yr hirdymor yw cynnydd parhaus mewn prisiau.

## Siart 3: Rhagwelir y bydd prisiau ynni yn parhau i gynyddu hyd at 2018



Ffynhonnell: Canllawiau'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar werthuso ac arfarnu'r polisi ar nwyon tŷ gwydr yn adrannau'r Llywodraeth, Mai 2009.

Caiff amcangyfrifon o lefel tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2008 eu cyhoeddi yn 2010. Bydd y data yn ein helpu i ddeall sut mae gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni, cynnydd mewn prisiau tanwydd a newidiadau mewn incwm wedi effeithio ar dlodi tanwydd yn cynnwys p'un a fu unrhyw newidiadau sylweddol yn ei ddsbarthiad ymhlith poblogaeth Cymru. Byddwn yn adolygu ein dull gweithredu pan fydd y data hwn ar gael.

Ceir rhagor o fanylion am ein cynlluniau i fonitro a gwerthuso'n amlach er mwyn llywio ein polisiau tlodi tanwydd yn Adran 4.

## **2. Tlodi tanwydd ledled Cymru yn 2004<sup>4</sup>**

### **Cartrefi sy'n agored i niwed**

Yn 2004 amcangyfrifwyd bod 134,000 o gartrefi yng Nghymru mewn tlodi tanwydd. O blith y cartrefi hyn, gellid dosbarthu 85 y cant (115,000) yn gartrefi sy'n agored i niwed<sup>5</sup>. Awgrymodd y gwaith modelu a gwblhawyd yn 2007 fod 243,000 o gartrefi mewn tlodi tanwydd erbyn 2006, ac roedd cyfran debyg o'r rheini yn gartrefi sy'n agored i niwed. Mae hyn yn golygu, drwy ddileu tlodi tanwydd mewn cartrefi sy'n agored i niwed erbyn 2010, gellir lleihau tlodi tanwydd 85 y cant. Gallai'r cynnydd mewn prisiau tanwydd ers 2004 fod wedi cynyddu nifer y cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd nad ydynt yn agored i niwed ar gyfradd uwch na'r rheini sy'n wynebu tlodi tanwydd ac sy'n agored i niwed. Caiff hyn ei archwilio fel rhan o'r dadansoddiad o dlodi tanwydd yn 2008 a gyhoeddir yn 2010.

### **Difrifoldeb tlodi tanwydd**

Gyda phrisiau ynni yn arwain at gynnydd yn nifer y cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd, bydd yn bwysig canolbwyntio ein hymdrechion a'n buddsoddiad i ddechrau ar y rheini yr effeithir arnynt fwyaf. Yn 2004, amcangyfrifwyd bod 38 y cant o'r cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd yn gwario dros 15 y cant o'u hincwm ar filiau tanwydd. Roedd gan y cartrefi hyn incwm cyfartalog is a gwariant cyfartalog uwch ar danwydd na chartrefi sy'n gwario 10-15 y cant o'u hincwm ar filiau tanwydd. Amcangyfrifwyd bod cyfran is o'r cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd ac sy'n agored i niwed mewn tlodi tanwydd difrifol (35 y cant) o gymharu â chartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd nad ydynt yn agored i niwed (53 y cant), er bod nifer y cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd ac sydd mewn tlodi tanwydd difrifol yn uwch ymhlith cartrefi sy'n agored i niwed gan fod y mwyafrif o'r cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd yn agored i niwed. Byddwn yn gwneud rhagor o waith dadansoddi ar y mathau o gartrefi sydd mewn tlodi tanwydd i'n helpu i'w targedu'n effeithiol pan fydd amcangyfrifon o dlodi tanwydd yn 2008 ar gael.

### **Deiliadaeth**

Yn 2004, amcangyfrifwyd bod y mwyafrif o'r cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd yn perthyn i'r sector perchennog-ddeiliad (72 y cant) gyda'r cartrefi sy'n weddill wedi'u

<sup>4</sup> Data o adroddiad Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2004 a gyhoeddwyd yn 2007 ac ystadegau tai cymdeithasol yn seiliedig ar arolwg Byw yng Nghymru 2008.

<sup>5</sup> Diffinnir cartrefi sy'n agored i niwed fel cartrefi sydd ag aelod sy'n 60 oed neu'n hŷn, sydd ag unrhyw blant dibynnol dan 16 oed neu sydd ag aelod â salwch hirdymor neu anabled.

dosbarthu'n gyfartal rhwng y sector rhentu preifat a'r sector tai cymdeithasol. Fodd bynnag, gan fod y mwyafrif o'r cartrefi yng Nghymru yn y sector perchennog-ddeiliad, nid yw'r mwyafrif o ddeiliaid tai sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain yn dlawd o ran tanwydd (89 y cant). Yn y sector tai cymdeithasol, amcangyfrifwyd bod 8 y cant yn dlawd o ran tanwydd yn 2004 a bod 17 y cant o denantiaid preifat yn dlawd o ran tanwydd. Mae'n debygol bod llai o gynnydd i'w wneud drwy wella perfformiad ynni cartrefi yn y sector tai cymdeithasol gan fod effeithlonrwydd ynni eisoes yn dueddol o fod yn well nag mewn sectorau eraill (yn bennaf oherwydd gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru), felly mae cyngor a chymorth ar ddefnyddio ynni yn y cartref, cael y fargen orau ar eich ynni a gwneud y mwyafrif o incwm yn debygol o fod yn bwysig o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol. Gall y cynnydd mewn prisiau tanwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf fod wedi arwain at gynnydd anghymesur mewn tlodi tanwydd yn y sector tai cymdeithasol gan fod cyfran uwch o'r tenantiaid ar incymau isel iawn ac felly gallent gael eu gwthio i mewn i dlodi tanwydd yn haws.

### **Oedran a chyfansoddiad cartrefi**


Amcangyfrifwyd mai pensïynwyr oedd yn cyfrif am y gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n wynebu tlodi tanwydd yn 2004 gyda 41 y cant o'r cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd yn bensiynwyr unigol a 17 y cant yn barau o bensiynwyr priod. Fodd bynnag, roedd cartrefi unigolion sengl nad oeddent yn bensiynwyr hefyd yn cyfrif am 26 y cant o'r cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd. Mae bod yn gartref unigolyn sengl neu riant unigol yn rhagfynegydd gwell o dlodi tanwydd, ac amcangyfrifwyd bod 23 y cant o gartrefi pensïynwyr unigol, 21 y cant o gartrefi unigolion sengl nad oeddent yn bensiynwyr a 13 y cant o gartrefi rhieni unigol mewn tlodi tanwydd yn 2004. Mae hyn yn cymharu ag wyth y cant o gartrefi parau o bensiynwyr priod a chartrefi dau oedolyn nad oeddent yn bensiynwyr heb blant, a phump y cant o gartrefi dau oedolyn â phlant.

Ar adeg o ddirwasgiad, mae pensïynwyr yn aml yn ymdopi'n gymharol dda gan fod eu hincwm sefydlog yn parhau tra bod diswyddiadau a thoriadau cyflog yn effeithio ar rannau eraill o gymdeithas. Mae hyn yn golygu y gall tlodi tanwydd gynyddu'n gymesur fwy ymhlith deiliaid tai nad ydynt yn bensiynwyr.

### **3. Ffeithiau'n Ymwneud â Marwolaethau Ychwanegol y Gaeaf**

Ystyr Marwolaethau Ychwanegol y Gaeaf yw nifer y marwolaethau ychwanegol rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth o gymharu â chyfnodau cyfwerth ar adegau eraill o'r flwyddyn. Mae dau ffactor amlwg sy'n dylanwadu ar farwolaethau ychwanegol y gaeaf; ffactorau endemig, fel tlodi tanwydd ac amodau amgylcheddol fel oerfel; a ffactorau epidemig, fel y fflw a feirysau eraill. Mae canlyniadau'r ffactorau hyn yn sylweddol fwy, a hynny'n anghymesur, ymhlith pobl hŷn o ran effeithiau negyddol ar iechyd na grwpiau oedran eraill o fewn y boblogaeth, fel y dangosir yn Siart 4.

**Siart 4: Marwolaethau ychwanegol y gaeaf fesul grŵp oedran, Cymru, 1991/1992 i 2007/2008**



Ffynhonnell: Marwolaethau Ychwanegol y Gaeaf yng Nghymru, 2007/2008, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. [www.cymru.gov.uk/statistics](http://www.cymru.gov.uk/statistics).

Gwyddys y canlynol:

- Ychydig iawn o'r marwolaethau ychwanegol hyn sy'n deillio o hypothermia; mae 50 y cant yn deillio o glefydau cardiofasgwlaidd, ac mae 30 y cant yn deillio o glefydau anadlol (gan gynnwys y ffliw). Mae'r 20 y cant sy'n weddill yn deillio o achosion eraill fel damweiniau a diffyg fitamin C a D.
- Bydd achosion marwolaeth yn amrywio ar adegau gwahanol ar ôl diwrnod oer; mae trawiadau ar y galon yn fwy tebygol o ddigwydd deuddydd ar ôl diwrnod oer, tra bod strôc yn fwy tebygol o ddigwydd bum diwrnod yn ddiweddarach, a salwch anadlol 12 diwrnod yn ddiweddarach.
- Mae marwolaethau ychwanegol yn fwy tebygol ymysg deiliaid tai mewn cartrefi a rhentir yn breifat neu gartrefi perchennog-ddeiliaid, tai a adeiladwyd cyn 1850, ac mewn cartrefi llaith.
- Mae cydberthynas linol rhwng tymheredd a marwoldeb, gyda chynnydd o 1.4 y cant mewn marwoldeb am bob 1°C y mae'r tymheredd yn gostwng o dan 18°C.
- Ceir nifer sylweddol lai o farwolaethau ychwanegol y gaeaf mewn gwledydd â chyfnodau hir o dan y rhewbwynt fel gwledydd Sgandinafia a Rwsia o gymharu â'r DU.

Yng Nghymru (yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf ar gyfer gaeaf 2007/08):

- Bu tua 1,500 o farwolaethau ychwanegol y gaeaf, saith y cant yn fwy na'r gaeaf blaenorol (1,400).
- Roedd dros bedair rhan o bump (87 y cant) o farwolaethau ychwanegol y gaeaf ymhlith pobl 75 oed neu'n hŷn.



- Mae'r cyfraddau uchaf o farwolaethau ychwanegol y gaeaf ymhlith pobl 85 oed neu'n hŷn. Roedd y gyfradd yn llai nag 1 fesul 10,000 o'r boblogaeth ar gyfer pobl rhwng 0 a 64 oed ond cynyddodd i 33 fesul 10,000 ar gyfer pobl rhwng 75 ac 84 oed a 100 fesul 10,000 ar gyfer pobl 85 oed neu'n hŷn.
- Mae'r duedd yng Nghymru yn debyg i ardaloedd eraill o'r DU.

Gellir gweld tueddiadau o ran marwolaethau ychwanegol y gaeaf o 1991/1992 i 2007/2008 yn Siart 4.

